

Canllawiau ynghylch Bysiau Mini

Gwybodaeth bellach

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) – www.rospa.com

Minibus Safety – A Code of Practice [Defnyddio Bysiau Mini'n Ddiogel – Cod Ymarfer, yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd]

Rheoliadau gwregysau diogelwch i blant

<https://www.gov.uk/child-car-seats-the-rules/when-a-child-can-travel-without-a-car-seat> (Cymru, Lloegr, Yr Alban – yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd)



Mae NASUWT yn cynghori ei aelodau'n gryf i beidio gyrru bysiau mini ysgol/coleg. Ni ddylai hyn fod yn rhan o ddyletswyddau cytundebol athrawon a chynghorir aelodau i beidio â gwirfoddoli i yrru bysiau mini ysgol/coleg. **Ni all cyflogwr ddigolledu gyrrwr bws mini gwirfoddol pan fo llys wedi gosod sancsiynau arno/arni o ganlyniad i dramgwydd traffig ffyrdd.** Dylid cofio hyn cyn i'r aelod dderbyn y cyfrifoldeb am yrru bws mini.

Pan fydd aelodau'n gwneud unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys defnyddio bysiau mini ysgol/coleg, dylid ystyried y cyngor a ganlyn.

Y gyfraith sy'n berthnasol i ysgolion a cholegau

Rhaid i bob bws mini ysgol/coleg gael Trwydded Adran 19 a rhaid arddangos hon mewn lle amlwg. Os nad oes trwydded o'r fath ar gael, rhaid i yrwyr bws mini fod â thrwydded yrru Cerbydau Cludo Teithwyr.

Rhaid i fysiau mini sy'n cael eu gyrru yng Ngweriniaeth Iwerddon neu ar gyfandir Ewrop fod â thrwydded Cerbydau Cludo Teithwyr, rhaid iddynt gael tacograff ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau gyrru lleol perthnasol.

Rhaid i wregysau diogelwch gael eu ffitio, yn gyfreithiol, mewn bysiau mini ysgol/coleg. Rhaid arddangos y logo cymeradwy ar gyfer bysiau mini ysgol/coleg ar gefn y cerbyd. Mae'r Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) (Diwygio) 2006 yn gofyn bod plant yn gwisgo gwregys diogelwch lle darperir y rhain, ac os oes seddi diogel addas i blant wedi'u darparu, rhaid i'r rhain gael eu defnyddio hefyd.

Gofynion am drwydded yrru

Diffinnir bws mini fel cerbyd modur sydd â rhwng 9 ac 16 o seddi i deithwyr ac sydd wedi'i ddisgrifio fel cerbyd categori D1.

I yrru bysiau mini am 'dâl neu wobwr' mae'n rhaid i yrwyr ddal trwydded yrru D1 (neu D) lawn ar gyfer Cerbydau Cludo Teithwyr. Nid yw'n glir a yw athrawon i gael eu hystyried yn bobl sy'n gyrru bysiau mini am 'dâl a gwobr' am eu bod yn cael cyflog am weithio fel athrawon, ac

mae'r cyngor sydd ar gael am y pwynt yma'n gwrth-ddweud ei gilydd.

Ond, dan rai amgylchiadau gall gyrrwr yrru bws mini o fewn y DU pan fydd ganddo/ganddi drwydded yrru ceir (categori B). Dim ond wrth yrru'r bws mini o fewn y DU y gellir gwneud hynny, nid wrth yrru dramor.

Mae unigolion sydd wedi pasio'r prawf gyrru categori B (ceir) cyn 1 Ionawr 1997 yn gymwys i yrru bysiau mini D1 nad ydynt yn cael eu defnyddio am 'dâl neu wobwr'. Mae hyn yn golygu bod staff ysgol sydd â thrwydded o'r fath yn gymwys i yrru bysiau mini sy'n cludo hyd at 16 o deithwyr heb gyfyngiad pwysau uchaf ar y cerbyd.

Mae NASUWT yn haeru'n gryf, yn arbennig ond nid yn gyfan gwbl oherwydd yr amwysedd ynghylch y statws 'tâl/gwobr', mai'r drwydded yrru D1 lawn yw'r gofyniad lleiaf, ac mae trwydded yrru ceir yn annigonol ymhob sefyllfa. Os yw ysgolion eisiau hyfforddi gyrrwr bws mini i lefel D1, rhaid i'r cyflogwr dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyfforddi a phrofi ar gyfer y drwydded yrru D1.

Yn ychwanegol at ofynion trwyddedu, gallai cyflogwyr ac/neu awdurdodau lleol orfodi gofynion ychwanegol i aelodau sydd eisiau gyrru bysiau mini ysgol, megis hyfforddiant ychwanegol (y cyfeirir ato weithiau fel hyfforddiant MiDAS). Dylai'r aelodau wneud yn siŵr bod unrhyw ofynion lleol wedi'u bodloni.

Diogelwch

Gyrrwr y bws mini sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod y cerbyd mewn cyflwr digon da i fynd ar y ffordd yn unol â Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw hi i sicrhau bod gwiriadau dyddiol/wythnosol wedi'u gweithredu ac wedi'u nodi yn llyfr log y cerbyd.

Dylid sicrhau bod rhestr wirio ar gael i'w harchwilio ym mhob bws mini, sy'n nodi manylion y gwiriadau y dylid eu gwneud. Hefyd, dylid sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i'w dilyn os bydd argyfwng yn codi.

Oriau gwaith

Mae angen egwylliau aml ar deithiau hirion ac ni ddylai unrhyw yrrwr yrru'n ddi-dor am fwy na dwy awr heb gael cyfle i aros i orffwyso am o leiaf 30 munud oddi wrth y cerbyd.

Yn ogystal, rhaid caniatáu i yrwyr sydd i deithio am 50 milltir neu fwy yn y ddau gyfeiriad gael digon o amser allan o unrhyw waith arall er mwyn gorffwyso'n ddigonol cyn cychwyn ar y daith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw cyfran fawr o'r teithio i ddigwydd yn hwyr gyda'r nos oherwydd dyma pryd y gall blinder ddod yn broblem ddifrifol. Ni ddylai'r amser gorffwyso gynnwys amser a dreulir yn gwneud dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â'r gofal neu'r cyfrifoldeb am ddisgyblion.

Dylai ysgolion/olegau hefyd sicrhau fod gyrrwr eraill yno i gymryd y llyw os bydd unrhyw argyfwng yn codi ac i leihau'r risg o flinder y gyrrwr.

Mae NASUWT yn pwysleisio y dylai oedolyn ychwanegol, sy'n gallu gyrru'r bws mini os yn bosib, oruchwylio'r teithwyr oherwydd gallent dynnu sylw'r gyrrwr yn hawdd.

Rhybudd mewn hanes – gwrthdrawiad bws mini ar yr M40

Ym mis Tachwedd 1993, roedd bws mini'n cludo 14 o blant adref i ysgol yn Swydd Gaerwrangon o drip ysgol i Lundain pan drawodd i mewn i lori gynnal a chadw oedd yn sefyll yn sefydlog ar yr M40. Lladdwyd 12 o'r plant a'u hathrawes oedd yn gyrru'r bws mini. Roeddent wedi mynd ar y daith ar ôl y diwrnod ysgol ac roedd y gwrthdrawiad wedi digwydd yn fuan ar ôl hanner nos. Arweiniodd y gwrthdrawiad at nifer o welliannau yng nghynllun bysiau mini, gan gynnwys gosod gwregysau diogelwch, ond mae'r digwyddiadau'n tynnu sylw at beryglon gyrru bysiau mini, yn arbennig ar ôl y diwrnod ysgol.

Byddwch yn ddiogel. Os ydych yn pryderu am fod eich cyflogwr wedi gofyn i chi gludo grŵp o ddisgyblion drwy yrru bws mini neu gerbyd modur arall, dylech gysylltu â NASUWT ar unwaith i gael cyngor.